Prawfddarllen gyda Deallusrwydd Artiffisial

Pan fyddwch yn cael taflen fanyleb ar gyfer asesiad, os caniateir i chi ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, dyma fydd yn ei ddweud am brawfddarllen y gwaith:

Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i wirio eich testun/creadigaeth eich hun am wallau gramadegol a chystrawennol, yn cynnwys aralleirio eich gwaith eich hun o fewn safonau penodol.

Cofiwch, pryd bynnag y byddwch yn defnyddio offer deallusrwydd artiffisial, rhaid i chi bob amser gadw copi o'ch drafftiau, eich nodiadau, ac adnoddau eraill cyn ac ar ôl i chi eu defnyddio. Mae hyn rhag ofn y bydd angen eu gwirio i weld a ydych wedi defnyddio offer deallusrwydd artiffisial yn y ffordd gywir ar gyfer eich asesiad.

Yr hyn y gallwch ei wneud wrth ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial ar gyfer prawfddarllen

Gofyn am helpu gan offeryn Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

Gallwch ofyn i offer deallusrwydd artiffisial wirio testun rydych chi wedi’i ysgrifennu am:

- Darllenadwyedd
- Gramadeg
- Cystrawen

Dyma rai esiamplau o offer deallusrwydd artiffisial y gallwch eu defnyddio ar gyfer hyn:

- ChatGPT
- Y bot deallusrwydd artiffisial yn Grammarly
- Microsoft Copilot

Yn y blwch isod, gallwch chi weld esiampl o anogwr y gallwch ei ddefnyddio:

ANOGWR: Please check the following text for readability, grammar, and syntax (eich testun)

Unwaith y byddwch wedi cael ymateb gan yr offeryn deallusrwydd artiffisial **bydd angen i chi benderfynu drosoch eich hun** a ydych am wneud y newidiadau y maent yn eu hawgrymu.

Dyma bedair enghraifft o sut y gallwch chi wneud hyn:

Enghraifft 1 defnyddio ChatGPT - y pwnc yw'r hyn y mae angen i fyfyrwyr ei wybod am ddefnyddio deallusrwydd artiffisial

Dyma'r anogwr:

Please check the following text for readability, grammar and syntax. Students are expected to:
Take part in learning opportunities offered to support AI literacy, understanding of ethical and other considerations in relation to artificial intelligence and the potential future developments and uses of artificial intelligence.

Ensure the academic integrity of their work and the ethical and appropriate use of artificial intelligence including that trying to claim AI-generated content as their own is considered academic misconduct.

Dyma'r ymateb:

Your text appears well written but there is one area where you could make it a bit more clear. Here's a revised version with minor adjustments for clarity:

"Students are expected to:

1. Take part in learning opportunities offered to support AI literacy, the understanding of ethical considerations, and other aspects related to artificial intelligence. This includes being informed about the potential future developments and uses of artificial intelligence.
2. Ensure the academic integrity of their work and adhere to ethical and appropriate standards for the use of artificial intelligence. It's important to note that attempting to claim AI-generated content as their own is considered academic misconduct."

These changes break down the two main points into numbered sections for easier comprehension.

Enghraifft 2 – defnyddio ChatGPT - y pwnc yw pa mor bwerus oedd Athen yn ystod yr hen gyfnod

Dyma'r anogwr:

Please check the following text for readability, grammar and syntax. There are many reasons why Athens was the strongest polity in the ancient period. One of them is that it had the biggest navy for most of the firth century it was really important because most Greek places were connected through the mediteranean sea. Another reason is that it headed the dealin league which is the biggest alliance in the Greek world.

Dyma'r ymateb:

Your provided text has some grammar and clarity issues. Here's a revised version:

"There are several reasons why Athens was the most powerful city-state in the ancient period. One of them is its possession of the largest navy throughout most of the fifth century, a crucial advantage as most Greek cities were connected through the Mediterranean Sea. Another reason is that Athens led the Delian League, which was the most significant alliance in the Greek world."

In this revised version, I've addressed the following issues:

1. Corrected "polity" to "city-state"
2. Improved sentence structure and clarity
3. Fixed "firth century" to "fifth century"
4. Replaced "headed the dealin league" with "led the Delian League" for clarity and accuracy

Esiampl 3 – defnyddio Grammarly AI Editor - – mae'r testun eto yn ymwneud ag Athen, yr un peth ag Enghraifft 2. Mae'r anogwr yr un peth. Dyma ymateb Grammarly:

> The original text has a few errors in syntax and grammar. Here is an edited version that reads better:
>
> "There are many reasons why Athens was the strongest polity during the ancient period. One of them is that it had the largest navy for most of the fifth century which was vital as most Greek places were connected through the Mediterranean Sea. Another reason for Athens' strength was its leadership of the Delian League, which was the largest alliance in the Greek world."

Esiampl 4 yn defnyddio Microsoft Copilot – defnyddiom yr un pwnc.

Ar gyfer yr offeryn deallusrwydd artiffisial hwn, mae anogwr gwahanol yn fwy defnyddiol. Mae'n syniad da defnyddio'r un hwn unwaith y byddwch eisoes wedi gofyn i Microsoft Copilot brawfddarllen eich testun.

Dyma'r anogwr:

> **Anogwr:** Please improve the readability of this text
> (eich testun)

Dyma'r ymateb:

> Sure! Here's a revised version of your text:
>
> "Athens was the most powerful city-state in ancient Greece for several reasons. Firstly, it had the largest navy during the fifth century, which was crucial because most Greek cities were connected by the Mediterranean Sea. Secondly, Athens led the Delian Leagure, the largest alliance in the Greek world."
>
> I hope this helps! Let me know if you have any other questions.

Defnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial sydd wedi'u hymgorffori yn eich meddalwedd prosesu geiriau

Bydd gan eich meddalwedd prosesu geiriau, er enghraifft Microsoft Word neu Google Documents, offer deallusrwydd artiffisial yn barod a gallwch chi ddefnyddio'r rhain i helpu gyda darllenadwyedd, gramadeg a chystrawen testun rydych chi wedi'i ysgrifennu eich hun.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r offer deallusrwydd artiffisial hyn mae:

- Microsoft Editor
- Microsoft Copilot
- Elfennau penodol o Grammarly

Mae'n bwysig iawn eich bod yn **penderfynu drosoch eich hun** a ydych am wneud y newidiadau y mae'r offeryn golygu yn eu hawgrymu.

Mae hefyd yn bwysig iawn eich bod yn deall yn llawn unrhyw awgrymiadau neu newidiadau maent yn eu gwneud gan nad ydych yn gallu bod yn sicr eu bod yn gywir.

Esiampl 1 – dyma'r hyn rydych chi'n ei weld pan ydych chi'n defnyddio'r Offeryn Golygu yn Microsoft Editor sy'n dangos sut mae wedi barnu eich ysgrifennu:



Esiampl 2 – yn defnyddio Grammarly



Esiampl 3 – Yn defnyddio Microsoft Copilot



Yr hyn na allwch ei wneud pan ydych chi'n defnyddio offer deallusrwydd artiffisial ar gyfer prawfddarllen

- Gofyn i offer deallusrwydd artiffisial greu testun i chi
- Caniatáu iddo ailysgrifennu'n llwyr, ehangu neu newid eich testun eich hun
- Aralleirio testun o lyfr, erthygl, ffynhonnell rhyngrwyd neu destun a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial
- Defnyddiwch yr anogwyr megis y rhain sy'n ymddangos yn y blwch isod:
    - Tell me why Athens was the most powerful polity in the classical world
    - Write a paragraph on why Athens was powerful
    - Continue this text

Pam na ddylech chi ddefnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial fel hyn

- Os ydych chi'n mewnbynnu'r anogwyr hyn, bydd yr offeryn deallusrwydd artiffisial yn y bôn yn gwneud yr asesiad i chi ac ni chaniateir hyn.
- Os gwnaethoch gyflwyno'r hyn a greodd yr offeryn AI ei hun, neu aralleirio testun gan rywun heblaw chi, yna nid eich gwaith chi ydyw a byddwch yn cyflawni camymddwyn academaidd, yn union fel y byddech petaech wedi copïo o lyfr neu fyfyriwr arall. Byddai hyn yn arwain at gosbau llym.

Dyma un o'r rhesymau pam mae'n rhaid i chi gofio cadw'r holl ddrafftiau, y nodiadau, a'r adnoddau a ddefnyddiwyd cyn ac ar ôl i chi ddefnyddio offer AI wrth ymchwilio ac ysgrifennu eich asesiad.

Efallai y bydd angen i'ch tiwtor eu gwirio i wneud yn siŵr nad ydych wedi mynd y tu hwnt i'r hyn y caniateir i chi ei wneud.

Y

Diwedd